**<u>Datganiad o'r Rheswm</u>**

**Cynnig i gyflwyno terfyn cyflymder 40mya ar ran o Heol y Pîl, A48.**

Cynnig i gyflwyno terfyn cyflymder 40mya yn lle rhan fer sydd â'r terfyn cyflymder Cenedlaethol ar hyn o bryd ar Heol y Pîl, A48, rhwng ffin y sir i'r terfyn amser 30mya presennol. Mae hyn yn dilyn cais gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Port Talbot i gefnogi cynnig terfyn cyflymder 40mya o fewn Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot ar hyd yr A48 i'r gogledd o ffin y sir.

Cyn penderfynu gwneud Gorchymyn i gyflwyno terfyn cyflymder 40mya neu beidio, mae gofyn i'r Cyngor ystyried y materion a nodir yn adran 122 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae adran 122(1) yn gofyn i'r Cyngor arfer y swyddogaethau a roddir iddo gan Ddeddf 1984 er mwyn sicrhau (cyn belled ag sy'n ymarferol o ystyried y materion a nodir yn adran 122(2)) bod cerbydau a thraffig arall yn symud yn chwim, yn hwylus ac yn saff (gan gynnwys cerddwyr).

Y materion sy'n rhaid i'r Cyngor eu hystyried yn a122 (2) yw:-

1. Y dymunoldeb i ddiogelu a chynnal mynediad rhesymol i'r eiddo;

2. Yr effaith ar gyfleusterau unrhyw ardal a effeithir a phwysigrwydd rheoleiddio a chyfyngu ar ddefnyddio ffyrdd gan gerbydau masnachol trwm er mwyn cadw neu wella cyfleusterau'r ardal y mae'r ffyrdd yn mynd drwyddynt;

3. Y strategaeth ansawdd aer cenedlaethol a luniwyd dan adran 80 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1995;

4. Pwysigrwydd hwyluso llwybr diogel i gerbydau gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau diogelwch a chyfleustra i bobl sy'n defnyddio neu'n dymuno defnyddio cerbydau o'r fath;

5. Unrhyw fater arall sy'n ymddangos yn berthnasol i'r Cyngor.

Yn dilyn ystyried dyletswydd A122, ystyrir ei bod yn briodol i gyflwyno'r terfyn cyflymder40myaer budd diogelu ffordd ac i hwyluso'r terfyn cyflymder 40mya i'r gogledd o'r fwrdeistref o fewn Castell Nedd Port Talbot.

Dangosir y gorchymyn traffig arfaethedig ar y Llun Rhif EB23.01 atodol.

Mae'r cynllun yn cael ei ariannu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot.